Amcanion Cydraddoldeb 2020-24 Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Gwent

Atodiad A - Ymchwil Ychwanegol a Thystiolaeth Ategol

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth gyd-destunol sydd wedi cael ei defnyddio gan Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent wrth benderfynu ar bwyslais yr Amcanion Cydraddoldeb ar y cyd. Mae'r meysydd canlynol yn cynnwys themâu a gawsant eu cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb blaenorol ac maent wedi cael eu hail-werthuso a'u haddasu yn erbyn galw presennol, gofynion deddfwriaethol ac arfer da. Mae pob maes wedi cael ei asesu o ran perthnasedd i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Maes 1: Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Yn ystod 2018/19, profodd 576,000 o ddynion a 1.2 miliwn o fenywod gamdriniaeth gan bartner yn y DU. Yn ystod yr un flwyddyn, cafodd 80 o fenywod a 16 o ddynion eu lladd gan eu partner presennol neu gyn bartner (Swyddfa Ystadegau Gwladol 2018). Nid yw 80% o oroeswyr byth yn ffonio'r heddlu. Ar hyn o bryd dim ond 1% o gyflawnwyr sy'n derbyn ymyrraeth arbenigol i fynd i'r afael â'u cam-drin (CAADA 2019). Mae cam-drin domestig a thrais cysylltiedig yn digwydd ym mhob dosbarth cymdeithasol ac mae'n digwydd i'r un graddau mewn ardaloedd trefol a gwledig yng Nghymru. Boed yn ymosodiad rhywiol, treisio, ymosodiad corfforol neu gam-drin emosiynol, mae menywod mewn mwy o berygl gan ddynion maen nhw'n eu hadnabod na dynion dieithr. Gall dioddefwyr ddod o unrhyw ran o gymdeithas, gan gynnwys pobl hŷn, pob ethnigrwydd, crefydd a chred, pobl ag anableddau a phobl o'r gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT+) (Swyddfa Archwilio Cymru, 2019).

Roedd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 wedi ymroi i wella'r ffordd roedd nodweddion gwarchodedig dioddefwyr yn cael eu cofnodi, a sicrhau bod dulliau riportio priodol a hygyrch ar waith. Roedd anghyfartaledd mewn riportio gan ddioddefwyr sy'n anabl, LGBT+ neu o gefndiroedd BAME hefyd yn faes yr oedd angen ei wella. Er bod y gwaith o gofnodi nodweddion gwarchodedig goroeswyr wedi gwella, mae rhai bylchau o hyd.

Yn ystod 2018/19, cofnododd Heddlu Gwent oddeutu 8,500 o ddigwyddiadau yn ymwneud â cham-drin a thrais domestig. Yn ystod y flwyddyn, roedd atgyfeiriadau BAME at gynadleddau amlasiantaeth asesu risg (MARAC) yn 6.5% yn erbyn argymhelliad o 6%. Roedd atgyfeiriadau anabledd yn 3.3% yn erbyn argymhelliad o 18% ac roedd atgyfeiriadau LGBT+ yn 0.5% o weithgarwch MARAC, yn erbyn argymhelliad o isafswm o 5%. Gan hynny, mae anghydraddoldeb a nodwyd yn flaenorol yn parhau a bydd hwn yn parhau i fod yn faes y mae angen ei wella.

Ar gyfer 2018/19, cofnododd Heddlu Gwent un digwyddiad yn ymwneud ag anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), pedwar digwyddiad yn ymwneud â phriodas dan orfod a 27 digwyddiad cysylltiedig â rhyw ffurf ar 'drais ar sail anrhydedd'.

Yn 2019/20, dechreuodd Swyddfa'r Comisiynydd waith i ddeall a gwella ymateb yr heddlu i oroeswyr treisio ac ymosodiad rhywiol. Bydd y gwaith hwn yn parhau gydol 2020 a bydd yn gyfle i ddysgu er mwyn gwella profiadau pobl a nodweddion gwarchodedig.

Maes 2: Trosedd casineb ac aflonyddu cysylltiedig ag anabledd

Diffiniad Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu o drosedd/digwyddiad casineb yw *'Trosedd/digwyddiad y mae dioddefwr neu unigolyn arall yn credu ei fod yn cael ei gymell gan elyniaeth neu ragfarn yn seiliedig ar anabledd, hil, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol a thrawsrywiol canfyddedig neu wirioneddol'.*

Roedd ystadegau a gyhoeddwyd yn adroddiad Y Swyddfa Gartref ar Drosedd Casineb (Cymru a Lloegr) 2018/19 yn dangos bod yr heddlu wedi cofnodi 103,379 o droseddau casineb, 10% yn fwy na 2017/18. Yng Nghymru, cofnodwyd 3,932 trosedd casineb gan yr heddlu, 14% yn fwy na'r 3,370 a gofnodwyd yn 2017/18.

- Roedd 2,298 (58%) yn droseddau casineb ar sail hil
- Roedd 670 (17%) yn droseddau casineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol
- Roedd 198 (5%) yn droseddau casineb ar sail crefydd
- Roedd 308 (8%) yn droseddau casineb ar sail anabledd
- Roedd 64 (2%) yn droseddau casineb ar sail trawsrywioldeb

Yng Nghymru, mae'r ffigyrau hyn yn adlewyrchu mwy o amrywiaeth o droseddau casineb yn cael eu cofnodi, yn enwedig cyfeiriadedd rhywiol, a oedd yn cyfrif am 17% o'r cyfanswm o gymharu â 11%. Cafwyd cynnydd ym mhedwar allan o'r pum cainc o drosedd casineb sy'n cael eu monitro.

- Cynnydd 9% (2,080 i 2,298) mewn troseddau casineb ar sail hil
- Cynnydd 31% (461 i 670) mewn troseddau casineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol
- Cynnydd 38% (123 i 198) mewn troseddau casineb ar sail crefydd
- Cwymp 9% (338 i 308) mewn troseddau casineb ar sail anabledd
- Cynnydd 30% (45 i 64) mewn troseddau casineb ar sail trawsrywioldeb

Gellir priodoli'r cynnydd yn rhannol i ddulliau cofnodi gwell a mwy o ymwybyddiaeth wrth gofnodi troseddau casineb.

Yng Ngwent, cynyddodd troseddau casineb a gafodd eu riportio 39% yn ystod 2017/18 o 110 yn 2016/17 i 181 yn 2017/18. Fodd bynnag, gwelwyd cwymp mewn troseddau casineb ar sail crefydd, a ostyngodd o bedwar i dri, a throsedd casineb ar sail trawsrywioldeb, a ostyngodd o bedwar i ddau.

Ym mis Gorffennaf 2018, cafodd dull Heddlu Gwent o ymdrin â throsedd casineb ei gydnabod gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi yn ei hadroddiad arolygu *Understanding Difference: The initial police response to hate crime*. Tynnodd yr adroddiad sylw at ein harferion arloesol a chadarnhaol wrth gefnogi dioddefwyr trosedd casineb, gan gynnwys Swyddogion Cymorth Trosedd Casineb sy'n cysylltu â dioddefwyr ac yn darparu cymorth dilynol, a Swyddog Cymorth Seiber Cymunedol sy'n gweithio i godi ymwybyddiaeth am broblemau megis bwlio ar-lein a thwyll seiber, ac yn ceisio'u hatal.

Atgyfeiriwyd tua 90% o ddioddefwyr trosedd casineb at wasanaethau arbenigol trwy Connect Gwent, y ganolfan amlasiantaeth ar gyfer dioddefwyr.

Mae asesu boddhad dioddefwyr trosedd casineb yn un maes y mae angen ei wella. Er bod dioddefwyr trosedd casineb yn nodi lefelau boddhad uwch ar y cyfan na dioddefwyr mathau eraill o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae angen mwy o waith i ddarparu dull cyson a chynaliadwy o ymgysylltu a chefnogi gan fod llawer o unigolion yn fregus iawn. Yn ogystal, byddai'r gwelliannau hyn o fudd i ddioddefwyr mathau eraill o drosedd trwy wella lefel y gwasanaeth a'r cymorth a dderbynnir.

Maes 3: Stopio a chwilio a defnyddio grym

Yn ystod 2017/18, cwympodd nifer y chwiliadau stopio a chwilio a gynhaliwyd gan yr heddlu 8% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan barhau'r duedd ar i lawr ers yr uchafbwynt yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2011. Gostyngodd achosion o stopio a chwilio'n gyflym yn dilyn penderfyniad yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd yn 2014 i ail-ganolbwyntio'r defnydd o'r pwerau hyn, ond mae'r gyfradd hon wedi arafu dros amser. Cwympodd nifer yr arestiadau hefyd (7%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Ar gyfer y DU, yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018, roedd pobl a oedd yn ystyried eu hunain i fod o grwpiau BAME bedair gwaith mor debygol o gael eu stopio a chwilio na phobl a oedd yn ystyried eu hunain i fod yn wyn. Roedd pobl o grwpiau du naw gwaith yn fwy tebygol o gael eu stopio na phobl a oedd yn ystyried eu hunain i fod yn wyn, ac roedd pobl oedd yn ystyried eu hunain i fod o ethnigrwydd Asiaidd neu gymysg dair gwaith yn fwy tebygol o gael eu stopio na phobl a oedd yn ystyried eu hunain i fod yn wyn.

Yng Ngwent, mae nifer cyffredinol yr achosion o stopio a chwilio a gofnodwyd wedi gostwng o 4,599 yn 2013/14 i 976 yn 2017/18. Mae Heddlu Gwent wedi llwyddo i gydymffurfio â'r Cynllun Defnydd Gorau o Stopio a Chwilio ers iddo gael ei greu. Hyd heddiw, mae dros 1,000 o aelodau'r cyhoedd wedi cymryd rhan yn y cynllun cysgodi ac mae Cyfarfod Tactegau Gweithredol yn cael ei gynnal yn rheolaidd i adolygu gweithgareddau stopio a chwilio a defnyddio grym ar draws Heddlu Gwent.

Cynyddodd ein Cymhareb Anghyfartaledd ar ran Hil (y nifer o weithiau yn fwy tebygol yr ydych o gael eich stopio a chwilio os ydych yn BAME o'i gymharu â gwyn) o 1.3 i 3.9 ond mae'n cael ei fonitro trwy sawl dull. Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn hwyluso'r Panel Craffu ar Gyfreithlondeb sy'n craffu'n annibynnol ar stopio a chwilio a defnyddio grym yng Ngwent. Mae'r Panel, sy'n cynnwys aelodau o'r Grŵp Cynghori Annibynnol, yn cyfarfod bob chwe mis i adolygu data'r heddlu, fideo camera corff a chofnodion stopio a chwilio. Mae'r Panel yn adolygu cydymffurfiaeth â gofynion cofnodi cyfreithiol, ansawdd data, Y Gymhareb Anghyfartaledd o ran Hil, ac ymgysylltiad â'r cyhoedd, gan roi adborth trwy gyfrwng adroddiad ar yr ymarfer craffu, sy'n cael ei baratoi gan Swyddfa'r Comisiynydd. Mae adroddiadau'r Panel wedi gwneud cyfres o argymhellion i'r llu, ac mae gwelliannau i ansawdd data a chofnodi sail dros weithredu wedi cael eu nodi dros amser.

Serch hynny, rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i sicrhau dealltwriaeth ac esboniad o gynnydd mewn anghyfartaledd yng Ngwent sy'n hyrwyddo ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn nefnydd Heddlu Gwent o stopi a chwilio a grym. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y maes hwn yn ein Cynllun Cyflawni yn y dyfodol.

Canfu ymgynghoriad blaenorol ar gydraddoldeb bod ein cymunedau BAME iau yn gallu teimlo bod stopio a chwilio'n effeithio'n benodol arnyn nhw, ac mae ein hymgysylltiad yn parhau i ganolbwyntio ar y ddemograffeg hon, er ein bod wedi cydnabod yr angen i bobl ifanc chwarae mwy o ran yn adolygu gweithgareddau stopio a chwilio yng Ngwent.

Mae'r cwrs 'Policesol', a ddatblygwyd mewn partneriaeth a'r Grŵp Cefnogi Ymfudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid yng Nghasnewydd, yn darparu sesiynau seiliedig ar egwyddorion ESOL, sy'n esbonio'r diwylliant plismona yng Ngwent ac yn y DU i newydd-ddyfodiaid i'r ardal. Y gobaith yw y bydd y cwrs hwn yn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r heddlu ymysg ein cymunedau BAME, a'u hawliau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â stopio a chwilio yn arbennig.

Maes 4: Y Ddalfa

O dan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol ac mewn ymateb i adroddiad arolygu Arolygiaeth Cwnstabliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015, trwy gyfrwng y Cyfarfod Cydraddoldeb mewnol, dechreuodd Heddlu Gwent weithio i roi'r trefniadau canlynol ar waith er mwyn bodloni'r argymhellion:

- Casglu a chyhoeddi data penodol ar bobl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa, wedi'i gasglu yn ôl rhyw, hil ac ethnigrwydd, ac oedran)
- Darparu adroddiadau rheolaidd ar y ddalfa a'r data gofynnol i gael eu hystyried gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'i gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd, er mwyn dangos i'r cyhoedd bod yr heddlu'n darparu gwasanaethau i gymunedau ar sail deg a thryloyw

- Sefydlu fframwaith llywodraethu cydraddoldeb hiliol sy'n gysylltiedig â chofrestr risg y llu
- Cydymffurfio â dyletswyddau i hyrwyddo cydraddoldeb, fel sy'n ofynnol yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Yn dilyn cyflwyno Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 gwnaed triniaeth pobl 17 oed sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn gyson â thriniaeth plant.

Yn ystod 2017/18, cyflwynodd Heddlu Gwent Fframwaith Monitro Cydraddoldeb. Er bod hwn wedi cyfrannu at waith craffu mwy effeithiol ar y meysydd cofnodedig, mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i sicrhau bod data'n cael ei gasglu a'i fonitro'n effeithiol. Mae hyn yn rhannol oherwydd newidiadau i strwythur cyfarfodydd mewnol Heddlu Gwent sydd wedi gofyn bod prosesau llywodraethu'n cael eu hadolygu.

Dyma mae ein data dalfa yn dweud wrthym am 2017/18:

- Cofnododd Heddlu Gwent 8,398 arést yn ystod y flwyddyn
- O'r rhain, roedd 84% yn wrywod a 16% yn fenywod
- Roedd 89% o'r bobl a arestiwyd yn wyn, 2.9% yn Asiaidd, 2.4% yn ddu a 2.2% o darddiad ethnig cymysg, sy'n dangos nifer anghymesur o bobl BAME yn dod i'r ddalfa o'i gymharu â data poblogaeth
- Roedd 65% o bobl a arestiwyd dros 26 oed, 26% rhwng 18 a 25 oed a 9% rhwng 10 a 17 oed.
- Mae nifer y bobl a gafodd eu cadw dan Adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi gostwng o 319 yn 2014/15 i 11 yn 2017/18

Mae Bwrdd Strategol Cyfiawnder Troseddol Gwent, sy'n cael ei gadeirio gan y Comisiynydd, yn monitro'r gwaith o drosglwyddo plant o ddalfa'r heddlu. Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithio gyda phartneriaid i wella goruchwyliaeth y Bwrdd o faterion y ddalfa ar draws y system cyfiawnder troseddol yng Ngwent.

Maes 5: Ymgysylltu â'r gymuned

Mae ymgysylltu â'r cyhoedd a chasglu barn yn hollbwysig o ran mynd i'r afael â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae gweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebu'n ofynnol gan ddeddfwriaeth hefyd ac yn rhan ganolog o'r gwaith o feithrin hyder a chyfreithlondeb yng ngwaith Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Gan hynny, mae gweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebu cynhwysol yn hollbwysig i sicrhau ein bod yn gallu ystyried barn y gymuned yn ein holl benderfyniadau strategol, polisi a gweithredol.

Mae Cydstrategaeth Ymgysylltu Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent yn nodi'r prif ofynion ymgysylltu sydd eu hangen i fodloni'r dyletswyddau statudol ar gyfer ymgysylltiad gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu fel y nodir yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Mae cyfrifoldebau pellach ar Gomisiynydd

yr Heddlu a Throseddu'n cael eu nodi yn y Ddeddf, i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am weithgareddau ymgysylltu'r llu.

Mae canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu'n cael eu monitro er mwyn llywio gwaith y dyfodol. Yn ogystal, mae dyletswydd ar Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent i sicrhau ymgysylltiad cynhwysol. Yn ystod 2018/19, cynyddodd Swyddfa'r Comisiynydd ei weithgareddau ymgysylltu i sicrhau bod pobl nad ydynt yn cael eu clywed yn aml yn cael cyfle i ymgysylltu.

Mae'n ofynnol bod Swyddfa'r Comisiynydd yn cynnal ymgysylltiad penodol ynglŷn â'r praesept plismona blynyddol, y Cynllun Heddlu a Throseddu, a boddhad dioddefwyr. Mae'n ofynnol bod y ddau sefydliad yn ymgynghori ar eu hamcanion cydraddoldeb strategol. Bydd ymgysylltu ychwanegol wedi'i dargedu'n cael ei gynnal ar unrhyw adeg yn ôl y gofyn hefyd.

Mae canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu'n cael eu cyhoeddi'n flynyddol. Trwy ymgysylltiad rheolaidd, ystyrlon a chynhwysol a thrwy ddefnyddio'r farn rydym yn ei derbyn, ein nod yw cynyddu hyder y cyhoedd yn ein gwasanaethau plismona, yn arbennig i'r cymunedau hynny sy'n llai tebygol o riportio profiadau o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Maes 6: Cydlyniant a chynhwysiant cymunedol

Mae Prevent yn un o bedair elfen CONTEST, strategaeth gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU. Ei nod yw atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu rhag cefnogi terfysgaeth. Strategaeth Prevent:

- Ymateb i her ideolegol terfysgaeth ac agweddau ar eithafiaeth, a'r bygythiad a wynebwn gan y rhai sy'n ei hyrwyddo;
- Atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth a sicrhau eu bod yn derbyn cyngor a chefnogaeth briodol;
- Gweithio gydag amrywiaeth eang o sectorau (gan gynnwys addysg, cyfiawnder troseddol, ffydd, elusennau, ar-lein ac iechyd) lle mae risgiau o radicaleiddio y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw.

Ym mis Gorffennaf 2015, rhoddwyd y Ddyletswydd Atal (y ddyletswydd o fewn y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015) ar awdurdodau arbenigol, gan gynnwys yr heddlu, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, i dalu sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Ar gyfer y gwasanaeth heddlu, gellir rhannu ddyletswydd hon yn bedwar maes:

- Erlyn, tarfu ac atal eithafwyr
- Rhoi cymorth i unigolion bregus
- Ymroi i bartneriaethau a chynnal asesiad risg

- Gwaith monitro a gorfodi gan gomisiynwyr yr heddlu a throseddu.

Mae Bwrdd CONTEST Gwent yn datblygu gwaith i graffu ar atgyfeiriadau a chanlyniadau i sicrhau bod prosesau'n cael eu rheoli a'u deall yn effeithiol. Bydd Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd yn rhan o drefniadau partner.

Mae tensiynau cymunedol yn cael eu monitro ar draws partneriaethau awdurdod lleol, a chaiff y Comisiynydd ei gynrychioli yn y cyfarfodydd hyn. Mae'r Comisiynydd yn derbyn gwybodaeth reolaidd gan Asesiadau Monitro Tensiynau Cymunedol hefyd, y mae Heddlu Gwent yn cyfrannu atynt. Gyda'n gilydd, rydym yn gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i annog undod a negeseuon unedig yn codi llais yn erbyn eithafiaeth dreisgar.

Mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i weithio i wella lles, gan gynnwys Cymru sy'n fwy cyfartal a 'Chymru o gymunedau cydlynol' trwy:

- Gynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
- Deall achosion craidd problemau er mwyn eu rhwystro rhag digwydd ac archwilio a ddylid newid y ffordd mae adnoddau'n cael eu defnyddio.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent yn ymwneud â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sydd, gyda'i gilydd, yn ceisio hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol a chymunedol.

Rydym yn cydnabod pryderon mewn cysylltiad â cheiswyr lloches a ffoaduriaid, yn arbennig menywod a phlant, sydd efallai'n ei chael hi'n anos i gael mynediad at wasanaethau cymorth ac sy'n annhebygol o riportio digwyddiadau oherwydd rhwystrau iaith neu am eu bod yn ofni'r heddlu. Rydym yn parhau i ymgysylltu a gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrff seiliedig yn y gymuned i gynnal cysylltiadau gydag unigolion sy'n ceisio noddfa yng Ngwent. Rydym yn parhau i ymchwilio i gyfleoedd i gynyddu ein hymgysylltiad â'r gymuned hon, i annog ymddiriedaeth a hyder yn Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd, ac i ddarparu cymorth priodol ynghyd â phartneriaid eraill sy'n galluogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches i deimlo bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu cynnwys yng Ngwent.

Yn ei adroddiad yn 2018 'A yw Cymru'n Decach?' canfu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bod pobl a oedd yn rhannu nodweddion gwarchodedig penodol, gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn dal i brofi rhagfarn a/neu elyniaeth sylweddol. Mae lefelau uchel o drais a chamdriniaeth sy'n cael eu profi gan rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn dylanwadu ar y ffordd maent yn teimlo am eu hardal leol a gall achosi teimlad o fod yn ynysig.

Mae'r heddlu'n wynebu heriau sy'n cael eu cydnabod ers tro wrth ddarparu gwasanaethau i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Cadarnhaodd ymgysylltiad blaenorol â chymunedau eu bod yn amharod i gynnwys yr heddlu pan fydd pethau'n mynd o chwith, cred bod yr heddlu'n rhagfarnllyd yn erbyn cymunedau Sipsiwn a

Theithwyr, a phrofiadau o wahaniaethu a rhagfarn gan y gymuned ehangach. Mae gwaith wedi ei wneud i wella dulliau partner ers i'r Cynllun Cydraddoldeb presennol gael ei gyhoeddi ac mae gan Heddlu Gwent swyddogion pwrpasol sy'n gyfrifol am gysylltu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n cynnwys pobl sy'n uniaethu fel Sipsiwn a Theithwyr yn dal yn gyfyngedig. Os yw'r hyn sydd wedi digwydd yn drosedd casineb, gellir cofnodi hyn fel trosedd yn erbyn 'Teithwyr Gwyddelig' neu 'Bobl Romani' er nad yw'n ymddangos bod y categorïau hyn yn cael eu defnyddio ac maent yn dibynnu ar gael eu dewis gan swyddogion. Gan hynny, ni allwn adolygu neu archwilio digwyddiadau sydd wedi cynnwys Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn rheolaidd.

Tynnodd yr adroddiad sylw at broblemau mewn cymunedau amrywiol mewn perthynas â'r canlynol hefyd:

- Hyder yn y system cyfiawnder troseddol, mynediad at gyfiawnder sifil a throseddol, a chysylltiad â gwasanaethau dargyfeiriol
- Riportio, cofnodi ac euogfarnau o ran troseddau casineb, lladdiadau, troseddau rhywiol a cham-drin domestig
- Cyflwr amryw o leoliadau dalfa, gan gynnwys diogelwch pobl sy'n cael eu dal a'r defnydd o rym neu ataliaeth
- Tanriportio a thangofnodi digwyddiadau
- Cynnydd yn y defnydd o Taser - yn bennaf oherwydd cynnydd mewn achosion o beidio tanio (lled-gylchu, dot coch ac ati) fel rhwystr, yn arbennig ar gyfer plant.

Bydd y ffactorau hyn yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb newydd o dan y pwnc neu faes thematig priodol.

Maes 7: Gweithredu cadarnhaol

Yn genedlaethol, nid yw'r gwasanaeth heddlu'n gynrychioliadol o'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Er bod tua 14% o boblogaeth y DU o gefndir lleiafrifoedd ethnig, yn ystod 2018/19 dim ond 7% o swyddogion heddlu ar draws heddluoedd y DU oedd o gefndir BAME. Yn yr un modd, dim ond 30% o swyddogion heddlu sy'n fenywod, er bod 51% o'r boblogaeth yn fenywod.

Mae'r anghyfartaledd hwn yn parhau i ddangos y posibilrwydd bod rhwystrau'n bodoli i bobl â nodweddion arbennig i ymuno â'r heddlu, y gallant fod yn llai tebygol o fod y llwyddiannus os ydynt yn gwneud cais, neu fod llai o gyfleoedd i ddatblygu neu ddyrchafu o fewn y sefydliad. Mae swyddogion BAME a benywaidd yn cael eu tangynrychioli'n sylweddol ar rengoedd uwch ac mewn adrannau arbenigol fel yr Uned Arfau Tanio. Yn ogystal, mae'n ofynnol bod Heddlu Gwent yn cyhoeddi data blynyddol ar unrhyw fylchau cyflog rhwng y rhywiau a all fod yn bodoli ers 2018.

Mae cymunedau nad ydynt yn gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu yn nemograffeg eu gwasanaethau heddlu yn llai tebygol o fod â hyder yn y ffordd y cânt eu plismona, a all arwain at densiynau cymunedol sylweddol. Mae cymunedau sy'n newid yn gyflym hefyd yn golygu, yn weithredol, bod angen i ni sicrhau bod gan ein swyddogion amrywiaeth o sgiliau a gwybodaeth (er enghraifft, iaith, dealltwriaeth ddiwylliannol) sy'n eu helpu i wneud eu gwaith yn effeithiol.

Mae *Diversity, Equality & Inclusion Strategy 2018-2025* Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn nodi naw ymrwymiad gan gynnwys *"sicrhau gwell dealltwriaeth o gyfansoddiad cymunedol a manteision gweithlu sy'n wirioneddol amrywiol".* Mae Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu wedi cynhyrchu pecyn cymorth - 'Workforce Representation, Attraction, Recruitment, Progression and Retention Toolkit' sy'n dempled i brif gwnstabliaid o ran arweinyddiaeth a newid diwylliannol er mwyn darparu Gweledigaeth 2020 Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu/Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, sy'n galluogi i gomisiynwyr yr heddlu a throseddu ddwyn prif gwnstabliaid i gyfrif am ei darparu.

Yng Ngwent, mae gennym boblogaeth BAME o ryw 4%, sy'n codi i ryw 10% yng Nghasnewydd. Yn 2018/19 roedd swyddogion BAME yn cyfrif am ryw 4% o'n sefydliad heddlu, gyda rhyw 7% o swyddogion cymorth cymunedol a 3% o staff heddlu yn nodi eu bod yn BAME. Roedd 67% o swyddogion heddlu'n fenywod a 65% o staff heddlu'n fenywod ac felly'n cael eu 'gorgynrychioli' ar draws Heddlu Gwent. Cyfanswm cyfran personél Heddlu Gwent oedd yn arddel hunaniaeth LGBTQ+ oedd 3%. Mae nifer y swyddogion a staff anabl wedi aros yn sefydlog ar 2% i swyddogion a 3% i staff.

Yn 2018/19, ac eithrio'r Comisiynydd, roedd 20 aelod o staff yn Swyddfa'r Comisiynydd (gan gynnwys dau ar secondiad o Heddlu Gwent) ac roedd 68% ohonynt yn fenywod. Nid oedd unrhyw staff yn dynodi eu bod yn BAME. Nododd dau unigolyn bod ganddynt anabledd.

Mae defnyddio gweithredu cadarnhaol yn un ffordd o gefnogi Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd i wella amrywiaeth y gweithlu. Fodd bynnag, mae adborth gan ymatebwyr yn awgrymu bod camddealltwriaeth a diffyg ymddiriedaeth o hyd ynghylch y defnydd o weithredu cadarnhaol wrth recriwtio. Bydd prosesau recriwtio a dyrchafu agored a thryloyw yn helpu i hyrwyddo hyder mewn cymunedau yn y defnydd o weithredu cadarnhaol.

Ychwanegiadau newydd ar gyfer 2020-2024

Mae'r themâu canlynol yn tarddu o waith sydd naill ai wedi dechrau yn ystod cyfnod y Cynllun Cydraddoldeb presennol, neu'n themâu sydd wedi cael eu nodi fel meysydd penodol i ganolbwyntio arnynt yn y Cynllun newydd. Mae rhai'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig neu is-grwpiau penodol ac mae eraill yn bwriadu

defnyddio dull cyson i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hyrwyddo cynhwysiant i'n holl gymunedau.

Maes A: Ymyrraeth gynnar ac atal (plant a phobl ifanc; iechyd meddwl)

Erbyn iddynt ddechrau yn yr ysgol, bydd o leiaf un plentyn ym mhob ystafell ddosbarth wedi byw gyda cham-drin domestig ers cael ei eni. Mae'r profiadau cynnar hyn yn gallu cael effaith enfawr ar blant yn hwyrach mewn bywyd (CAADA, 2019). Mae'r term ‘Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod’ (ACE) yn cyfeirio at amrywiaeth o ddigwyddiadau trawmatig a dirdynnol y gall plant fod yn agored iddynt wrth dyfu i fyny. Mae'r arwyddion hyn yn cynnwys: camdriniaeth yn ystod plentyndod (corfforol, rhywiol neu emosiynol); rhieni'n gwahanu; bod yn agored i drais domestig; byw ar aelwyd sy'n cael ei heffeithio gan gamddefnydd sylweddau, salwch meddwl neu riant/gwarcheidwad yn y carchar. Gan hynny, mae atal a lliniaru ACE yn faes blaenoriaeth y mae sefydliadau ar draws Cymru'n canolbwyntio arno.

Yn 2017, cyflwynwyd cais ar y cyd i Gronfa Drawsnewid yr Heddlu gan gomisiynwyr heddlu a throseddu a gwasanaethau heddlu Gwent, De Cymru, Gogledd Cymru a Dyfed Powys ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, i gynllunio a gweithredu amrywiaeth o fentrau i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig ag ACE ym mhob rhanbarth. Dyfarnwyd cyllid gwerth rhyw £6.8 miliwn i'r cydweithrediad hwn yng Nghymru am gyfnod o dair blynedd.

Mae'r Cynllun Cyflawni strategol - 'Camau Cynnar Gyda'n Gilydd' yn cadarnhau’r rhaglen. Mae'r cynllun yn rhoi manylion y dull lleol o gyflawni yn erbyn y pedwar amcan strategol cenedlaethol, sy'n cynnwys maes 'thematig'. Addysg yw'r maes thematig ar gyfer Gwent a fydd yn ceisio datblygu 'dull ysgol gyfan' o ymdrin ag ACE ac arfer sy'n cael ei lywio gan wybodaeth am drawma.

Lansiwyd cynlluniau i ddatblygu cymorth i blant sy'n agored i gam-drin domestig ym mis Mawrth 2019, gydag Ymgyrch Encompass, partneriaeth diogelu ymyrraeth gynnar rhwng yr heddlu ac ysgolion. Yn dilyn unrhyw ddigwyddiad o gam-drin domestig, bydd plant yn aml yn cyrraedd yr ysgol yn ofidus a heb baratoi. Nod Ymgyrch Encompass yw sicrhau bod staff ysgol yn cael eu gwneud yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiad ar y cam cynharaf posibl er mwyn gallu darparu cymorth perthnasol a phwrpasol i blant a phobl ifanc mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cynnwys. Mae’n bwysig nodi nad yw Ymgyrch Encompass yn disodli protocolau presennol, nac yn rhoi sylw unigryw i les y plentyn. Ei nod yw atgyfnerthu gwaith diogelu a sicrhau bod lles y plentyn yn hollbwysig.

Ers mis Chwefror 2018, mae prosiect Cynghorydd Clinigol Ystafell Reoli'r Heddlu rhwng Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd yn sicrhau pan fydd pobl fregus gyda salwch meddwl neu sy'n dioddef argyfwng yn dod i gysylltiad â Heddlu Gwent, eu bod yn derbyn cymorth priodol ar y pwynt cyswllt cyntaf. Mae'r prosiect yn darparu tîm pwrpasol o arbenigwyr iechyd meddwl sy'n gweithio ochr yn ochr â staff yn ystafell reoli galwadau Heddlu Gwent. Amcan hyn yw rheoli risg a niwed yn well

mewn perthynas ag argyfwng iechyd meddwl a sicrhau bod gofal a chymorth priodol yn cael ei ddarparu'n amserol.

Ers dechrau'r prosiect, mae'r tîm wedi cofnodi cynnydd mewn ymgynghoriadau iechyd meddwl, gan dderbyn rhyw 800 o geisiadau am wasanaeth bob mis ar gyfartaledd. Mae hyn wedi arwain at leihad yn nifer y bobl sy'n cael eu cadw dan Adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl, gyda 237 wedi'u cofnodi ers i'r tîm fod yn weithredol, o'i gymharu â 310 dros gyfnod o 11 mis cyn lansio'r gwasanaeth. Ar hynny, mae'r nifer o weithiau mae swyddogion wedi cael eu hanfon i ddigwyddiadau wedi lleihau, gyda mwy na 1,000 o achosion wedi ei hosgoi yn ystod cyfnod y gwasanaeth. Iechyd meddwl cyffredinol a bygythiadau hunanladdiad mae'r tîm yn ymdrin â nhw fwyaf, a chofnodwyd cynnydd nodedig yn nifer y gwiriadau lles y gwnaed cais amdanynt hefyd, o 50 ym mis Chwefror 2018 i 178 ym mis Chwefror 2019.

Mae'r prosiect yn rhan o ymroddiad Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent i gefnogi'r prif egwyddorion a amlinellir yn y Concordat Gofal mewn Argyfwng Iechyd Meddwl.

Maes B: Camfanteisio'n droseddol ar blant a phobl eraill bregus (plant a phobl ifanc; anabledd; ffoaduriaid a cheiswyr lloches; amddifadedd economaidd)

Llwyddodd Swyddfa'r Comisiynydd i sicrhau £150,000 gan Y Swyddfa Gartref i ddatblygu a darparu ymyraethau trosedd difrifol a threfnedig. Roedd Casnewydd yn un o'r pump o ardaloedd ledled Cymru a Lloegr i dderbyn y cyllid i gynnal gwaith peilot i fynd i'r afael â phroblemau a nodwyd. Roedd y prosiect yn cynnwys cyllid ar gyfer darparu gwasanaeth i fodloni meini prawf ymyrraeth gynnar ac atal, cadernid cymunedol a chyfathrebu strategol. I sicrhau bod y gwasanaeth a ddarparwyd yn defnyddio dull llawn a chyfannol o ymdrin â throsedd difrifol a threfnedig i blant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'r gymuned, ychwanegodd y Comisiynydd £120,000 at gyllid Y Swyddfa Gartref. Roedd partneriaid darparu'n cynnwys Ymddiriedolaeth St Giles, Barnado's, Casnewydd Fyw a Mutual Gain.

I ddangos ein cefnogaeth i Ymgyrch Jig-so (ymgyrch Heddlu Gwent yn erbyn trosedd difrifol a threfnedig yng Ngwent) a'r rhaglen trosedd difrifol a threfnedig yng Nghasnewydd, gwnaethom gynnal digwyddiad partner 'Deall Trais Difrifol gan Ieuenctid a Gangiau' gyda Chasnewydd yn Un ym mis Chwefror 2019. Comisiynwyd Ymddiriedolaeth St Giles i hyfforddi gweithwyr proffesiynol i godi ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n wynebu plant, pobl ifanc a chymunedau lleol mewn perthynas â gangiau, delio cyffuriau, trais a cham-fanteisio. Anelwyd y sesiynau hyfforddiant at swyddogion rheng flaen, staff dysgu, gweithwyr allgymorth a gweithwyr proffesiynol eraill yn gweithio gyda phobl ifanc a chymunedau yng Nghasnewydd.

Yn ogystal, sicrhaodd pedwar comisiynydd yr heddlu a throseddu Cymru £1.21 miliwn gan Gronfa Ieuenctid Ymyrraeth Gynnar ym mis Awst 2018 fel rhan o gynnig ar y cyd gyda lluoedd heddlu Cymru. I gyd-fynd â lansiad Strategaeth Trais Difrifol Y Swyddfa Gartref, dyfarnwyd cyllid i'r cynnig dros ddwy flynedd (2018/19 a 2019/20). Mae'n amlinellu rhoi dull amlweddog ar waith yn rhanbarthol i ddeall a mynd i'r afael ag achosion craidd trais difrifol gyda phlant dan 18 oed trwy ymyrraeth gynnar ac atal. Mae pob comisiynydd yr heddlu a throseddu'n gweithio gyda phartneriaid darparu gwahanol, ynghyd â rhywfaint o ymyrraeth leol uniongyrchol, yn seiliedig ar anghenion lleol fel y nodwyd yn ystod y cyfnod cyllido. Yn lleol, mae'r prosiect yn seiliedig ar ddarpariaeth trosedd difrifol a threfnedig Casnewydd ond mae'n cynnwys ymyraethau i bobl sy'n byw mewn ardaloedd eraill yng Ngwent lle mae perygl sylweddol o ymwneud â thrais difrifol yn bodoli.

Ers dechrau'r gwaith yng Nghasnewydd, mae 10 o bobl ifanc yn ymgysylltu â'r gwasanaeth ar unrhyw un adeg. Yn nodedig, mae o leiaf un person ifanc a oedd yn amharod iawn i ymwneud â'r gwasanaeth wedi ymgysylltu ag ymyrraeth sylweddol gydag Ymddiriedolaeth St Giles. Mae Barnado's yn gweithio gyda 15 o bobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi gweithio gyda Chydgysylltydd Rhanbarthol Trawsnewid yr Heddlu ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl, arweinydd cenedlaethol strategol, a Chadeirydd y Bartneriaeth Ranbarthol dros Atal Caethwasiaeth i sicrhau bod gwaith Cydgysylltydd Rhanbarthol Trawsnewid yr Heddlu ar Gaethwasiaeth Fodern, a ddechreuwyd gan y Comisiynydd, yn cael ei adolygu'n gadarn. Mae hyn wedi sicrhau bod gennym sail gadarn o dystiolaeth sy'n dangos ein blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl fel gwasanaeth heddlu ac ar y cyd gyda phartneriaid. Cwblhawyd yr adolygiad yn yr haf 2018 ac aethpwyd â'r argymhellion dilynol ymlaen trwy'r partneriaethau atal caethwasiaeth cenedlaethol a rhanbarthol. Mae'r canfyddiadau wedi arwain at ddulliau mwy cyson o ymdrin â'r problemau hyn ar draws yr ardaloedd plismona yng Nghymru a gwell gweithgareddau integredig rhwng sefydliadau wedi eu datganoli a rhai nad ydynt wedi eu datganoli. Maent wedi cael eu defnyddio fel sail i'n hymateb i alwad y Pwyllgor Dethol Materion Cartref am dystiolaeth yn ystod 2018/19 hefyd.

Ym Mehefin 2018, dechreuodd y cynllun peilot Eiriolydd Caethwasiaeth Fodern am gyfnod o flwyddyn. Cyflogir yr Eiriolydd gan Gymorth i Ddioddefwyr, ac mae'r swydd wedi rhoi cefnogaeth uniongyrchol i nifer o ddioddefwyr caethwasiaeth fodern sydd wedi dioddef oherwydd cam-fanteisio rhywiol neu gam-fanteisio ar weithwyr. Roedd un ohonynt yn ddinesydd Prydeinig. Mae'r Eiriolydd wedi cefnogi gweithrediadau'r heddlu a gweithgareddau eraill gydag asiantaethau megis Tîm Mewnfudo'r Swyddfa Gartref a'r Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur yn ôl y gofyn hefyd.

I gefnogi gwell gwaith partner, cyflwynwyd pum diwrnod o ddigwyddiadau ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern a diogelwch i dros 600 o bobl o wahanol

asiantaethau ledled Gwent. Bydd hyn yn helpu i sicrhau dulliau cyson o ymdrin â phroblemau caethwasiaeth fodern a sicrhau gwell canlyniadau i ddioddefwyr.

Mae'r Comisiynydd yn cynrychioli'r pedwar comisiynydd heddlu a throseddu ar Grŵp Atal Masnachu Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru, Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru Gyfan a Rhwydwaith Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl comisiynwyr heddlu'r DU. Mae hyn yn sicrhau, ochr yn ochr â gwaith Grŵp Atal Caethwasiaeth Gwent, ein bod yn cyfrannu'n weithredol at y dull cenedlaethol o fynd i'r afael a chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl ac yn dylanwadu arno.

Maes C: Twyll a seiberdrosedd (holl nodweddion gwarchodedig)

Mae twyll yn fygythiad heb ffiniau lle mae galluogwyr yn defnyddio dulliau seiber i droseddu sy'n cynnwys troseddau gwerth isel a lleol, yn ogystal â thwyll cymhleth a threfnedig. Gall dioddefwyr, troseddwyr a galluogwyr fod mewn lleoliadau ar draws sawl ardal llu heddlu a ffiniau rhyngwladol.

Er bod unrhyw un yn gallu dioddef twyll, mae rhai grwpiau cymdeithasol yn fwy agored i fathau penodol o dwyll a gall yr effaith fod yn fwy oherwydd ffactorau megis oedran, anabledd, problemau iechyd meddwl ac unigrwydd. Mae troseddwyr yn targedu dioddefwyr dro ar ôl tro, yn rhannu manylion pobl fregus a phobl sy'n agored i dwyll ar draws rhwydweithiau troseddol (rhestrau o bobl 'hawdd eu twyllo' neu 'suckers lists' yn Saesneg).

Nododd Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr gynnydd 35% yn nifer yr achosion a riportiwyd i Action Fraud dros gyfnod o bedair blynedd (Rhagfyr 2018). Mae galwadau lleol am wasanaeth wedi cynyddu ac maent yn cyfrif am alw sylweddol mewn rhai ardaloedd. Mae dros 54% o drosedd a 86% o dwyll sy'n cael ei riportio i'r heddlu'n cynnwys rhyw elfen o seiberdrosedd. Mae twyll yn cyfrif am un rhan o dair o bob trosedd a chafwyd 3.6 miliwn o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2018 (Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr Rhagfyr 2018).

Yn ei hadroddiad yn 2019, *Cyber: Keep the light on – An inspection of police response to cyber-dependent crime* (Atodiad 3), canfu Arolygiaeth Cwnstabliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi bod y dull o gydgysylltu cenedlaethol trwy Luoedd Arwain Cenedlaethol ac ymchwiliadau lleol yn gadarn ond bod angen gwella ar bob lefel o blismona er mwyn:

- Rhannu cudd-wybodaeth yn well ar draws y gymuned i greu cyfle am ymyraethau rhagweithiol
- Gwneud swyddogaethau a chyfrifoldebau'n fwy clir ar draws plismona
- Datblygu dull systematig o rannu a gwerthuso arfer da
- Gwneud gwell defnydd o'r strwythurau a thactegau a ddefnyddir i fynd i'r afael â mathau eraill o drosedd i fynd i'r afael â thwyll
- Gwella cysondeb, cyfathrebu a gwasanaethau i ddioddefwyr.

Rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019, riportiwyd 3,616 o droseddau cysylltiedig â thwyll i Heddlu Gwent, cynnydd 9.1% ar y cyfnod riportio blaenorol, a ddaeth i £3.7 miliwn mewn colledion i ddioddefwyr. Roedd 52% o'r achosion a riportiwyd gan fusnesau, a'r 48% arall gan unigolion.

Ar gyfartaledd dim ond 20% o ddioddefwyr twyll sy'n riportio eu profiadau i Heddlu Gwent. Mae twyll yn fwy cyffredin ymysg pobl hŷn, yn arbennig mewn perthynas â 'thaliadau gwthio' a 'thwyll cludwr'. Mae pobl ifanc ac oedolion bregus yn cael eu defnyddio fel 'mulod arian' i wyngalchu cyllid trwy eu cyfrifon banc. Dywed 16% o ddioddefwyr eu bod yn adnabod y troseddwr. Mae riportio troseddau a digwyddiadau yn uwch ymysg pobl 30 i 39 oed, gyda diffyg riportio gan bobl 19 oed ac iau gan eu bod yn llai tebygol o gael eu targedu. Y ffôn yw'r galluogwr mwyaf cyffredin, wedi'i ddilyn gan werthiannau ar-lein ac e-bost.

Mae troseddau sy'n ddibynnol ar seiber yn cael eu tan-riportio'n sylweddol ac nid yw'n hysbys beth yw'r raddfa wirioneddol. Mae plismona'n parhau i wynebu heriau sylweddol o ran troseddau a digwyddiadau sy'n ymwneud â seiber. Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn adnoddau i sicrhau ein bod yn gallu ymdrin â bygythiadau newydd a rhai presennol. Cynyddodd trosedd a hwylusir gan ddulliau seiber yng Ngwent 45.8% yn ystod 2018/19 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hon yn duedd ar i fyny sydd wedi bod yn amlwg dros y pedair blynedd diwethaf. Ymysg y troseddau mae sgamiau ar-lein, twyll hunaniaeth a cham-fanteisio rhywiol.

Mae bwlio/aflonyddu a hwylusir gan ddulliau seiber yn cyfrif am y mwyafrif o droseddau a hwylusir gan ddulliau seiber yng Ngwent, wedi ei ddilyn gan gam-fanteisio a thwyll. Yn bennaf, mae bwlio/aflonyddu a hwylusir gan ddulliau seiber yn cynnwys bygwth pobl neu anfon negeseuon sarhaus atynt ar gyfryngau cymdeithasol megis Facebook, Instagram, Snap Chat ac ati, ac mae'r troseddau hyn wedi cynyddu 54.8% yn ystod 2018/19.

Mae Ymgyrch Signature yn parhau i ddiogelu pobl fregus sy'n dioddef twyll. Pan fydd twyll ar-lein yn cael ei riportio, mae ymchwilwyr ariannol hyfforddedig yn ceisio olrhain symudiad y credyd trwy'r system bancio, ac yn ceisio adfer arian sydd wedi cael ei ddwyn. Mae'r Cyd-gysylltydd Cam-drin Ariannol a Swyddog Diogelu, sy'n gweithio yn Connect Gwent, yn ymweld â phobl fregus sy'n dioddef twyll i gynnig cymorth a chyngor atal trosedd priodol iddynt. Mae Swyddog Cymorth Seiber Cymunedol yn defnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol i roi'r cyngor diweddaraf i'r cyhoedd ynglŷn â ffyrdd i osgoi dioddef twyll ar-lein.

Maes Ch: Troseddau yn erbyn pobl hŷn (oedran)

Mae'r disgwyliad oes cyfartalog yn y DU yn codi. Yn 2017, roedd ychydig dan 12 miliwn o bobl 65 oed a hŷn, 2.2 miliwn yn fwy na deng mlynedd yn gynharach. Mae cyfradd y boblogaeth sy'n 65 a hŷn wedi cynyddu o leiaf 0.1% bob blwyddyn ers 2008, ac erbyn 2066 bydd dros chwarter y boblogaeth yn y dosbarth oedran hwn.

Nid oes unrhyw oedran neu ddiffiniad cytûn ar draws y system cyfiawnder troseddol am yr hyn sy'n gwneud 'person hŷn'. I'r heddlu, mae pobl hŷn yn aml yn cael eu hystyried i fod yn grŵp anniffiniedig o fewn casgliad ehangach o bobl fregus. I'r gwrthwyneb, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn adnabod pobl hŷn fel grŵp cydnabyddedig ac mae ganddo bolisi sy'n gorchymyn disgwyliadau ar gyfer sefydliad.

Dengys astudiaethau bod pobl hŷn yn fwy tebygol o ofni bod yn ddioddefwyr trosedd na phobl mewn grwpiau oedran eraill. Fel grŵp, mae pobl hŷn yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan heriau corfforol a meddyliol mynd i'r llys i roi tystiolaeth hefyd.

Ym mis Hydref 2019, rhyddhaodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ei hadroddiad *The poor relation – The police and CPS response to crimes against older people*. Roedd yn nodi nad yw pobl yn deall trosedd yn erbyn pobl hŷn yn dda, er gwaethaf bregusrwydd pobl hŷn a'r pwysigrwydd mae cymdeithas yn ei roi ar edrych ar ôl pobl yn eu henaint. Prin oedd dadansoddiad yr heddlu o'r broblem yn ôl yr adroddiad, gan gynnwys y cysylltiadau â throsedd casineb ar sail anabledd a cham-drin domestig. Canfu'r adroddiad hefyd mai arwynebol oedd dealltwriaeth yr heddlu o'r problemau hyn, er bod twyll yn cael ei adnabod fel maes pryder cynyddol i ddioddefwyr hŷn.

Awgryma'r adroddiad y gallai'r heddlu ganolbwyntio a chydgysylltu gwaith i fynd i'r afael â throseddau yn erbyn pobl hŷn yn well trwy ddatblygu strategaeth i amlinellu pa gamau y mae angen i'r gwasanaeth heddlu eu cymryd i roi sylw i rai o'r heriau presennol, ac i baratoi ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn galluogi i'r heddlu ganolbwyntio mwy ar y broblem a'r cysylltiadau gyda cham-drin domestig er enghraifft er mwyn ei deall yn well. Dylai hyn helpu i wella'r ymateb i bobl hŷn bregus hefyd pan fyddant yn dioddef trosedd, gan ymateb yn yr un ffordd ag y byddent yn ei wneud gyda phobl fregus eraill megis achosion o gam-drin plant a cham-drin domestig.

Gwnaeth yr Arolygiaeth yr argymhellion canlynol:

- Dylai prif gwnstabliaid a chomisiynwyr yr heddlu a throseddu a sefydliadau perthnasol eraill adolygu a ellir darparu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr yn well
- Dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod atgyfeiriadau diogelu oedolion yn digwydd yn briodol, gyda phrosesau effeithiol ar waith i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Ymysg y meysydd i'w gwella roedd gofyniad bod prif gwnstabliaid yn canfod ffyrdd da o asesu'r galw presennol gan bobl hŷn ar yr heddlu. Dylai'r asesiadau hyn gynnwys rhagfynegiad o newidiadau mewn galw yn y dyfodol, dylent gyfrif am waith sefydliadau eraill a dylid eu hymgorffori yn Natganiadau Rheoli'r Llu.

Mae gweithgareddau megis Ymgyrch Signature yn rhoi cymorth i bobl hŷn sy'n ddioddefwyr twyll. Yn ogystal, mae Connect Gwent yn darparu gwasanaeth pwrpasol

ar gyfer pobl hŷn sydd wedi dioddef unrhyw dwyll trwy gyfrwng y cynrychiolydd Age Cymru sy'n gweithio yn y ganolfan dioddefwyr.

Maes D: Cwynion (holl nodweddion gwarchodedig)

Rydym yn cydnabod bod diffyg hyder mewn gwasanaethau plismona'n broblem arbennig i gymunedau BAME a phobl ifanc, ar rydym wedi parhau i weithio i godi hyder ymysg y cymunedau hyn. Mae barn y cyhoedd a dderbyniwn trwy ein prosesau cwynion yn rhoi cyfle i ni adolygu ansawdd ein gwasanaeth a'n hymateb i'n cymunedau, a chanfod lle y gallwn wella. Mae nifer y cwynion mewn cysylltiad â stopio a chwilio a defnyddio grym yng Ngwent yn isel, a byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o sut i wneud cwyn, yn arbennig ymysg y cymunedau sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan yr arferion plismona hyn.

Lansiwyd yr Uned Ymateb i'r Cyhoedd gan Swyddfa'r Comisiynydd ym mis Ebrill 2016 i ddarparu gwell gwasanaeth i'r cyhoedd trwy sicrhau bod unrhyw anfodlonrwydd gyda Heddlu Gwent yn cael ei drin mor gyflym ac effeithiol â phosibl, cyn iddo esblygu i fod yn gŵyn fwy difrifol. Sefydlwyd yr uned i hyrwyddo bod yn agored, yn dryloyw ac yn effeithlon, i ymateb yn briodol ac yn amserol ac mae'n cyd-fynd â gwaith Adran Safonau Proffesiynol Gwent. Mae problemau gwahaniaethu ymysg y materion o anfodlonrwydd mae'r Uned Safonau Proffesiynol wedi ymdrin â nhw, ac mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi monitro'r rhain.

Cyflwynodd Deddf Plismona a Throsedd 2017 newidiadau i system gwynion yr heddlu, gan roi cyfle i gomisiynwyr yr heddlu a throseddu gymryd mwy o reolaeth dros gwynion yn erbyn swyddogion heddlu. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn 2019/20 a'r Uned Safonau Proffesiynol yn Heddlu Gwent fydd yr unig bwynt cyswllt ar gyfer cwynion am swyddogion heddlu a staff heddlu, ac eithrio'r Prif Gwnstabl. Swyddfa'r Comisiynydd fydd yn ymdrin â chwynion am y Prif Gwnstabl o hyd. Bydd angen gwaith i sicrhau bod Swyddfa'r Comisiynydd yn craffu ar gwynion yn effeithiol, gan gynnwys cwynion am wahaniaethu sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig.

Maes Dd: Boddhad y cyhoedd (holl nodweddion gwarchodedig)

Mae boddhad y cyhoedd yn ffactor hollbwysig sy'n sail i bopeth a wnawn. Mae egwyddor y DU o blismona â chydsyniad yn dibynnu ar y gwasanaeth heddlu i feithrin a chynnal cydberthnasau cadarnhaol gyda'n cymunedau, gan weithio gyda nhw i sicrhau ein bod yn ymateb i'w hanghenion ac yn darparu gwasanaeth o'r ansawdd gorau posibl.

Fel y nodwyd yn gynharach, rydym yn cydnabod bod angen gwelliannau i sicrhau bod pob dioddefwr yn fodlon ar y gwasanaeth plismona maent yn ei dderbyn; serch hynny, mae hyn yn arbennig o berthnasol i gymunedau gyda llai o hyder yn yr heddlu, a allant fod yn amharod i riportio eu profiadau yn y lle cyntaf.

Mae llawer o'r gweithgareddau yn y Cynllun Cydraddoldeb yn gysylltiedig â boddhad y cyhoedd, gan gynnwys ein gwaith i ddarparu gwasanaeth Cymraeg dwyieithog. Byddwn yn parhau i weithio i geisio deall ein cymunedau a'u hanghenion a phryderon er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth sy'n gweithio, gan gynnwys darparu gwasanaethau sydd wedi'u hariannu'n briodol i gefnogi a rhoi sylw i'r problemau a nodir.

Byddwn yn defnyddio barn y cyhoedd i helpu i lywio'r penderfyniadau a wnawn ynghylch newidiadau a gwelliannau i wasanaethau, ac wrth gynllunio i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth plismona sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Maes E: Comisiynu (holl nodweddion gwarchodedig)

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n gyfrifol am ddarparu grantiau lleihau trosedd ac anhrefn ar gyfer gweithgareddau sy'n cefnogi ac yn cyfrannu at leihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngwent. Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi cyflwyno nifer o raglenni sy'n gysylltiedig â nodweddion neu grwpiau penodol; er enghraifft:

- Amrywiaeth o wasanaethau i ddioddefwyr, gan gynnwys dioddefwyr cam-drin domestig, ymosodiad rhywiol, a phlant a phobl ifanc
- Dargyfeirio troseddwyr lefel isel a throseddwyr am y tro cyntaf oddi wrth y ddalfa (fel isod)
- Cymorth camddefnyddio sylweddau (fel isod)
- Ymyrraeth gynnar ac atal i blant a phobl ifanc mewn perygl o ymwneud â cham-fanteisio troseddol neu sydd yn ymwneud â cham-fanteisio troseddol.

Yn ystod 2018/19 dechreuodd Swyddfa'r Comisiynydd ail dendro'r Cynllun Dargyfeirio Braenaru i Fenywod Cynhaliwyd trafodaethau helaeth gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru ynglŷn â'r broses dendro a chynhaliwyd trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i gadarnhau ei bod am barhau i fuddsoddi yn y cynllun. Mae'r Comisiynydd yn dal i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r Cynllun Braenaru i Fenywod i sicrhau bod cynllun dargyfeirio ar gael i fenywod wrth i ni weithio i ddatblygu dull system gyfan tuag at ymdrin â dargyfeirio.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi gweithio i gomisiynu rhaglen dargyfeirio 18-25 i gyd-fynd â'r Cynllun Braenaru i Fenywod yn y ddalfa. Anelir y rhaglen at ddynion 18-25 oed a bydd yn cynnig dewis amgen i unigolion sy'n bodloni'r meini prawf dargyfeirio penodol, gan roi cyfle iddynt dderbyn cymorth a chefnogaeth i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol ac atal ail droseddu.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn cyfrannu at gomisiynu Gwasanaeth Ymyrraeth ac Adfer Integredig Cyffuriau ac Alcohol Gwent, sy'n gweithredu fel dolen rhwng triniaethau camddefnyddio sylweddau'r gymuned a'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod o gymorth ac ymyraethau o'r pwynt pan gaiff

unigolyn ei arestio mewn perthynas â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol, trwy'r cyswllt yn y carchar, i wasanaethau gofal ac atgyfeirio. Derbyniodd y gwasanaeth 1,440 o atgyfeiriadau yn ystod 2018/19, a gweithiodd gyda phartneriaid statudol a thrydydd sector i fynd i'r afael â phroblemau megis y tueddiadau sy'n dod i'r amlwg o drosedd trefnedig cysylltiedig â chyffuriau, digartrefedd a cham-drin domestig.

Mae'r Comisiynydd hefyd yn darparu Cronfa'r Heddlu a'r Gymuned sy'n ceisio cefnogi prosiectau yn y gymuned sy'n dangos cysylltiadau pendant â'r blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae'r Gronfa'n canolbwyntio ar roi cymorth i ardaloedd mwyaf difreintiedig Gwent, yn arbennig i grwpiau neu sefydliadau sydd eisoes yn gweithio gyda phobl ifanc yn yr ardaloedd hynny. Derbyniodd chwech o brosiectau arian yn 2018/19 ac mae Swyddfa'r Comisiynydd yn mesur y canlyniadau.

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithio i ddeall effeithiau trefniadau comisiynu ac ariannu presennol, a bylchau presennol neu sy'n dod i'r amlwg, fel rhan o'r cylch comisiynu. Yn benodol, bydd gwaith i fesur a deall ymgysylltiad y gwasanaeth â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn well yn bwysig i sicrhau bod y rhaglenni rydym yn eu hariannu'n gynhwysol ac yn hygyrch i bawb sydd angen cymorth.

Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau megis Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a chomisiynwyr heddlu a throseddu eraill, yn ogystal â gweithio'n lleol gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, y Bwrdd Cynllunio Ardal a phartneriaid eraill i rannu'r hyn a ddysgwyd a cheisio cyfleoedd i ddarparu ein trefniadau ariannu cydgysylltiedig.

Maes F: Gwarediadau y tu allan i'r llys (oedran; ethnigrwydd)

Mae'r defnydd o warediadau y tu allan i'r llys ar gyfer pobl sy'n arddel hunaniaeth du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, neu lle mae plant a phobl ifanc wedi bod yn rhan o ddigwyddiad, wedi cael ei amlygu fel un o'r meysydd lle mae unigolion yn llai tebygol o dderbyn dewis ar wahân i'r ddalfa. Mae'r effaith ar fenywod yn y ddalfa'n cael ei gydnabod hefyd, yn yr un modd â'r anfanteision dwbl i fenywod BAME yn y system cyfiawnder troseddol.

Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd drefniadau ar waith eisoes ar gyfer dargyfeirio menywod a phobl ifanc 18 - 25 oed. Mae trefniadau cyfiawnder ieuenctid yn cynnwys y Panel a chyfleoedd i gymryd rhan mewn cyfiawnder adferol a gwarediadau eraill.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithio gyda Heddlu Gwent a phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill i sicrhau bod gwarediadau y tu allan i'r llys yn deg, yn effeithiol ac yn gymesur trwy'r Panel Craffu ar Warediadau y tu allan i'r Llys. Bydd hyn yn helpu gwell gwaith monitro a goruchwyliaeth o'r defnydd o warediadau amgen yng Ngwent. Bydd y Panel yn ystyried achosion er mwyn canfod themâu a

thueddiadau ac yn rhoi ei farn er mwyn cefnogi gwaith i ddefnyddio gwarediadau'n well. Bydd diweddariadau gan y Panel Craffu'n cael eu cyflwyno i Fwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol Gwent i gynorthwyo dealltwriaeth o ddefnydd ac effaith ac i gefnogi gwelliannau lle y bo'n briodol.

Maes Ff: Mynediad at wasanaethau plismona (holl nodweddion gwarchodedig)

Mae angen i wasanaethau heddlu fod yn hygyrch er mwyn bod yn effeithiol. Mae cymunedau'n dweud wrthym bod angen iddynt gael mynediad corfforol i adeiladau ac at swyddogion heddlu, ac yn 2018/19 gwnaethom ganolbwyntio ar wella hygyrchedd gwasanaethau plismona i'r cymunedau hynny sy'n profi rhwystrau, yn ogystal â sicrhau bod amgylcheddau gwaith yn ddiogel ac yn hygyrch i bersonél.

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am adeiladau'r Heddlu yng Ngwent sy'n cynnwys pob gorsaf heddlu, yr holl dir ac asedau. Mae gan y Comisiynydd strategaeth 10 mlynedd ar gyfer yr ystâd sy'n amlinellu'r weledigaeth, sbardunau ar gyfer newid a'r targedau i wella'r ystâd gan gydnabod cyfleoedd a chyfyngiadau presennol plismona modern. Mae hyn yn golygu gweithio'n agos gyda Heddlu Gwent i sicrhau bod gwasanaeth plismona gweladwy a hygyrch yn cael ei ddarparu, sy'n ymateb i angen lleol ac yn tawelu meddwl y gymuned.

Yn 2018/19 cynhaliwyd archwiliad mewnol o bob adeilad plismona i asesu pa mor hygyrch ydynt i'r cyhoedd a phersonél heddlu, a chanfuwyd a chytunwyd ar feysydd i'w gwella. Roedd yr archwiliad yn cynnwys asesiad o'r dyluniad ar gyfer y Pencadlys newydd. Roedd y dyluniad yn talu sylw i nifer o ystyriaethau o ran sicrhau bod mannau'n gwbl hygyrch i ymateb i anghenion corfforol ac anghenion amhariad ar y synhwyrau, yn ogystal â datblygu cyfleusterau toiled, ymolchi a newid niwtral o ran y rhywiau, a darpariaethau ar gyfer mamolaeth.

Yn 2017/18, dechreuodd gwaith i gyflwyno cynllun Cadw'n Ddiogel Cymru yng Ngwent. Nod y Cynllun yw helpu unrhyw un sy'n ei chael yn anodd siarad â'r heddlu ar y ffôn neu wyneb yn wyneb os ydynt mewn sefyllfa sy'n achosi straen, er enghraifft, wrth ffonio i riportio digwyddiad neu pan fydd rhywun yn y ddalfa. Dechreuwyd hyrwyddo'r cynllun ar ddechrau 2019 ac, erbyn diwedd mis Mawrth, roedd 14 o bobl wedi cofrestru eu manylion. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent yn parhau i gydweithio i hyrwyddo'r cynllun er mwyn meithrin mwy o hyder mewn gwasanaethau plismona lleol ac er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch.

Maes G: Gweithio gyda phartneriaid (holl nodweddion gwarchodedig)

Mae gwaith partner yn edefyn allweddol sy'n rhedeg trwy bopeth a wnawn. Mae ein gwaith gyda phartneriaid yn sicrhau ein bod yn gallu rhannu gwybodaeth, profiad ac arfer da i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol i'n

cymunedau a mynd i'r afael â materion na fyddem yn gallu mynd i'r afael â nhw ar ein pennau ein hunain. Mae gweithio gyda phartneriaid yn golygu ein bod yn gallu cael mynediad at gymunedau sy'n llai parod i ymwneud â'r heddlu, er enghraifft ein cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a ffoaduriaid a cheiswyr lloches, ymgysylltu â nhw a rhoi cymorth iddynt yn fwy llwyddiannus.

Rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid i ddarparu nifer o fentrau i fynd i'r afael â throsedd, darparu ymateb cydgysylltiedig i ddioddefwyr, a datblygu ffyrdd i gefnogi cymunedau mwy cydlynol, fel yr amlinellwyd eisoes yn y ddogfen hon.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar weithio gyda phartneriaid i gyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb newydd wrth i ni barhau i ddatblygu a darparu mentrau sy'n helpu i wneud Gwent yn lle diogel, cynhwysol a chydlynol i fyw a gweithio ynddo.

Maes Ng: Cydraddoldeb rhwng y rhywiau (Rhyw)

Mae cydraddoldeb rhwng y rhywiau'n digwydd pan fydd mynediad at adnoddau a chyfleoedd yr un mor rhwydd, a phan fydd gwahanol fathau o ymddygiad, dyheadau ac anghenion yn cael eu gwerthfawrogi yn gyfartal, ni waeth beth yw rhyw unigolion. Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae llawer o waith wedi cael ei wneud yn y DU i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac i roi mwy o lais i fenywod yn y gweithle, ac mae adroddiadau ar y bwlch cyflogau rhwng y rhywiau yn cael eu cyhoeddi i'n helpu i ganfod anghydraddoldebau o'r fath.

Dangosodd data gweithlu ar gyfer 2019 bod 34.3% o swyddogion heddlu, 66.4% o staff heddlu, a 56.3% o swyddogion cymorth cymunedol yn nodi eu bod yn fenywaidd, o'i gymharu â 30% o swyddogion, 67% o staff a 52% o swyddogion cymorth cymunedol yn 2016. O'r swyddogion hynny yn 2019, roedd tua 3% ohonynt ar reng Prif Arolygydd ac uwch. Gyda chefnogaeth Rhwydwaith Cefnogi Menywod Heddlu Gwent, mae mentrau gweithredu cadarnhaol i annog menywod i swyddi uwch ac i ystyried cyfleoedd mewn meysydd plismona lle mae dynion wedi bod yn flaenllaw ynddynt wedi cael eu cyflwyno er mwyn gwella cynrychiolaeth benywod ar draws pob maes o'r gweithlu. Mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo ac mae'n cyfrannu at y Cynllun Gweithredu Gweithlu Cynrychioliadol yn awr.

I'r gwrthwyneb, mae mwy o fenywod yn gweithio yn Swyddfa'r Comisiynydd o hyd. Yn 2019, roedd menywod yn dal 68.4% o swyddi yn y sefydliad, 62.5% ohonynt yn swyddi arweinyddiaeth a rheoli. Mae mentrau yn bodoli i gefnogi gwaith i ddatblygu benywod mewn swyddi arweinyddiaeth a rheoli ar draws y sefydliad.

Ar ddechrau 2019, gwnaeth y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ymrwymiad i sefyll gyda menter HeforShe, mudiad i gyflawni cydraddoldeb rhwng y rhywiau y gall dynion a bechgyn ymgysylltu ag ef i sicrhau newid trwy gyflawni cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae HeforShe yn gyfle i'r gwasanaeth heddlu gydnabod yn gyhoeddus mewn sefydliadau lle mae dynion wedi bod yn flaenllaw yn draddodiadol bod

anghydraddoldeb pŵer o hyd rhwng y rhywiau. Y gobaith yw y bydd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau o fewn y sefydliad yn cael effaith gadarnhaol ar y ffordd mae gwasanaethau heddlu'n ymateb i droseddau sy'n cael effaith anghymesur ar fenywod a merched hefyd, er enghraifft cam-drin domestig a rhywiol.

Mae'n bwysig ein bod yn parhau i geisio cyfleoedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau a rhoi sylw iddo, a thrwy'r Cynllun Cydraddoldeb newydd, byddwn yn cydweithio i ddarparu cyfle cyfartal ar draws pob rhyw a hunaniaeth rywiol, gan gefnogi'r gweithlu i deimlo'n hyderus a medrus ac i godi ymwybyddiaeth a chydweithio i ddatrys problemau sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Maes H: Lles yn y gweithle (holl nodweddion; iechyd meddwl)

Mae swyddogion a staff heddlu'n profi'r un math o afiechyd meddwl â'r boblogaeth gyffredinol, ond mae'r canlynol yn gallu dwysau problemau:

- Bod yn fwy agored i drawma - mae'r perygl o ddatblygu problemau iechyd meddwl yn uchel oherwydd cysylltiad rheolaidd â sefyllfaoedd trawmatig
- Amharodrwydd i geisio cymorth am salwch iechyd meddwl - fel gyda meysydd proffesiynol eraill, yn y gweithle y ceir y mwyaf o stigma am iechyd meddwl (ar ôl teulu a ffrindiau). Gall ofn ynghylch ffitrwydd i weithio arwain pobl i beidio â cheisio cymorth a chefnogaeth am salwch iechyd meddwl. Yn yr un modd, gall y ffordd mae person yn rhyngweithio gydag iechyd meddwl effeithio ar ganfyddiad a dealltwriaeth person o iechyd meddwl fel problem, gyda'r posibilrwydd o'i annog i beidio â cheisio cymorth yn gynnar.

Amcangyfrifir bod achosion o swyddogion heddlu yn y DU yn cymryd absenoldeb salwch oherwydd rhesymau seicolegol wedi dyblu yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Cymerodd un o bob 14 swyddog heddlu amser o'r gwaith yn 2018/19 i wella ar ôl straen, iselder a gorbryder (rhai'n gysylltiedig ag anhwylder straen ôl-drawmatig). Mae Heddlu Gwent yn parhau i roi sylw mawr i hyn a, gyda chymorth Swyddfa'r Comisiynydd, mae wedi buddsoddi'n sylweddol mewn mentrau lles er mwyn rheoli a lleihau absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae gan Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent dros 50 Llysgennad Lles sydd wedi cael hyfforddiant gan MIND; mae'r cydweithwyr cefnogol hyn yn gallu rhoi cymorth i swyddogion a staff gyda'u lles corfforol a meddyliol.

Maes I: Ymgynghori â staff (holl nodweddion)

Mae cyswllt agos rhwng ymgynghoriad ac ymgysylltiad gyda staff a boddhad a lles y gweithlu. Mae sicrhau yr ymgynghorir â staff ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt

yn ein galluogi i sicrhau bod eu hanghenion, safbwyntiau a syniadau'n cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith cynllunio a datblygu sefydliadol.

Mae Rhwydweithiau Cymorth Staff Heddlu Gwent yn chwarae rhan allweddol yn cynrychioli buddiannau ac anghenion eu haelodau (mae staff Swyddfa'r Comisiynydd â nodweddion gwarchodedig cysylltiedig yn gallu ymuno hefyd). Mae rhwydweithiau staff yn cael eu cynrychioli mewn cyfarfodydd mewnol i roi barn ac arweiniad ar faterion sy'n cael eu trafod, ac i sicrhau bod y sefydliad yn cydnabod problemau a allai effeithio ar aelodau, neu sydd yn effeithio arnynt.

Cynhelir arolygon staff yn rheolaidd ar draws y gweithlu i fesur boddhad yn y gweithle ac i gael barn pobl am weithio i Heddlu Gwent a Swyddfa'r Comisiynydd. Defnyddir y canlyniadau i helpu i ganfod a rhoi sylw i unrhyw faterion nad ydynt yn cael sylw digonol, yn arbennig mewn cysylltiad â rhyw, hil, crefydd, anabledd a chyfeiriadedd rhywiol.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dulliau ymgysylltu mewnol i sicrhau staff yn cael cyfleoedd i ddylanwadu ar waith cynllunio a datblygu'r sefydliad, a bod staff yn teimlo'n hyderus i dynnu sylw at faterion sy'n effeithio ar eu boddhad a'u lles yn y gweithle.

Maes J: Hyfforddiant (holl nodweddion)

Mae hyfforddiant yn hollbwysig i ddarparu gwasanaeth plismona effeithiol, ac mae angen i hyfforddiant sicrhau bod materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn derbyn sylw priodol. Bydd hyn yn helpu i gyflawni gweithlu sy'n wybodus ac yn gallu adnabod a rhoi sylw i faterion sy'n effeithio ar aelodau amrywiol ein cymunedau a'n gweithlu.

Er bod cyflwyno'r Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona canolog yn darparu arfer cyson o ran gweithredu, asesu ac achredu hyfforddiant plismona dechreuol ar draws y 43 llu heddlu yng Nghymru a Lloegr, mae'n hollbwysig bod hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth a ddarperir yn lleol yn galluogi swyddogion a staff i ddeall y problemau sy'n effeithio ar gymunedau lleol.

Byddwn yn gweithio i sicrhau bod hyfforddiant Heddlu Gwent yn cynnwys dysgu a datblygu effeithiol am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn ymchwilio i gyfleoedd i gynnwys aelodau cymunedau â nodweddion gwarchodedig er mwyn iddynt rannu eu profiadau o ymgysylltu â'r heddlu a datblygu ein dealltwriaeth ymhellach.